

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (Y
DRENEWYDD I GAERSWS, POWYS)
(CYFYNGIADAU CYFLYMDER A DIM
GODDIWEDDYD DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrann 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A489, neu gerllaw iddi, rhwng y Drenwydd a Chaersws, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A489 o'i chyffordd â'r A483 yn Ffordd Dolfor, y Drenwydd hyd at ganolbwyt ei chyffordd â'r A470 yn Moat Lane, Caersws. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 18 Gorffennaf 2023. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 18 Gorffennaf 2023 am gyfnod hwyaf o 18 mis. Bydd hysbysiad am y gwaith yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar
<https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A489 TRUNK ROAD (NEWTOWN TO
CAERSWS, POWYS) (TEMPORARY SPEED
RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING)
ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A489 trunk road between Newtown and Caersws, Powys.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A489 trunk road from its junction with the A483 at Dolfor Road, Newtown to its junction with the A470 at Moat Lane, Caersws. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

The Order comes into force on 18 July 2023. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate intermittently from 08:00 hours on 18 July 2023 for a maximum duration of 18 months. Notice of all works will be displayed before they start.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at
<https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government